No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8th September, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, M.R. Wilkinson, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol:Cynghorwyr Dr. I.J. Johnson, N.C. Thomas a N.J. Wood.

## C55 CYHOEDDIAD -

Cyn dechrau'r cyfarfod yn ffurfiol, mynegodd yr Arweinydd bryder y Cabinet ynghylch y newyddion o Balas Buckingham ac anfonodd eu dymuniadau gorau i'w Mawrhydi a'i theulu a fyddai ar flaen meddyliau pawb.

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet yn dilyn gwyliau mis Awst, ac atgoffodd bawb oedd yn bresennol, dan Bolisi Aml-Leoliadau'r Cyngor, fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio at ddibenion archifo ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Yr oedd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn hybrid, er bod yr Aelodau Cabinet oedd yn cymryd rhan yn y Siambr ar yr achlysur hwn.

Gofynnwyd i'r Aelodau Cabinet ddiffodd eu sain pan nad oeddent yn siarad, a phetai Aelodau am siarad, y dylent godi eu dwylo ar y sgrin neu nodi hynny yn y swyddogaeth sgwrsio.

O ran pleidleisio ar argymhellion, os na fyddai gwrthwynebiad i argymhelliad, byddid yn cymryd distawrwydd fel cytundeb.

## C56 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B.E. Brooks.

## C57 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Eitem Agenda 11, sef adroddiad am Fonitro Cyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Mai, 2022. Gofynnodd i'r Cabinet nodi fod Argymhelliad 2 yn cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, ond nad oedd angen gwneud hyn oherwydd bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac

Adnoddau Corfforaethol,  ei hun wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2022, oedd yn argymell nodi'r cynnwys.

## C58 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C59 CH4 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 16 Mehefin, 2022..

Yr oedd yr Aelodau wedi archwilio'r data oedd ar gael a chodwyd cwestiynau am beth o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr arolwg staff. Dywedodd yr Arweinydd fod data meintiol ac ansoddol wedi eu hystyried. Yr oedd y Tîm AD yn weithwyr proffesiynol medrus, ac y maent yn meincnodi ar draws nifer o sectorau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at fentrau pellach oedd yn digwydd ochr yn ochr ag enghreifftiau megis y Caffi Menopos, a sgrinio'r coluddyn a'r bledren. Yr oedd canolbwynt ar les y staff.

Daeth y Pwyllgor Craffu â nifer o argymhellion i'r Cabinet oedd yn cynnig nifer o adroddiadau i'r Cabinet a'r Pwyllgor ar feysydd a restrir yn y cyfeiriad. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet eisoes wedi derbyn adroddiad cynhwysfawr yn chwarterol, a chynigiodd y dylai'r Tîm AD gadw mewn cof y pynciau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ac ystyried y pynciau hynny fel rhan o'r adroddiad chwarterol nesaf, gan nodi unrhyw dueddiadau, achosiaeth neu effeithiau mewn absenoldebau salwch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Dudalen 4 y cyfeiriad fel yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, gan ddweud fod nifer o'r staff yn y maes gwasanaeth hwnnw yn staff rheng-flaen yn gwneud  llawer o waith corfforol a allai arwain at broblemau cyhyrysgerbydol. Yr oedd y problemau hyn yn cael eu lliniaru gymaint ag oedd modd, ac yr oedd y  staff yn derbyn hyfforddiant i osgoi a lleihau digwyddiadau lle gallai anafiadau ddigwydd. Yr oedd ef, fel Aelod o'r Cabinet, ynghyd ag Uwch-Swyddogion, yn cadw golwg fanwl ar absenoldebau salwch.

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r Pwyllgor Craffu am eu sylwadau. Cytunodd ag awgrym yr Arweinydd am i'r Tîm AD ymdrin â'r mater a godwyd fel rhan o'r adroddiad chwarterol nesaf.

Wedi ystyried y cyfeirio,

PENDERFYNWYD – NODI'r cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 16 Mehefin, 2022 ac y dylai'r Tîm AD gadw mewn cof y pynciau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu fel rhan o'r argymhellion i'r cyfeiriad ac ystyried y materion hynny fel rhan o'r Adroddiad Absenoldeb Salwch Chwarterol nesaf.

Rheswm dros y penderfyniad

Cadw mewn cof gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C60 DIWEDDARIAD CHWARTER 4 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF)** –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 11 Gorffennaf, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gyfarfod diddorol, gyda holl Aelodau'r Cyngor yn cymryd rhan mewn trafodaeth fanwl a threiddgar. Cyfeiriodd at dudalennau 11-13 Atodiad A i'r adroddiad oedd yn trafod y disgrifiadau risg, crynodeb o'r gofrestr gorfforaethol, a'r map gwres risg. Roedd y Pwyllgor wedi trafod defnyddioldeb y gofrestr i'w gwneud yn berthnasol a hygyrch i'r cyhoedd, yn ogystal â chynnwys pwysau diweddar. Awgrymodd y Pwyllgor dynnu ymaith y risg Lles a chynnwys risg Costau Byw ar y Gofrestr ar gyfer y chwarter nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod llawer o fesurau wedi eu gosod ynghylch diwygio lles, ac yr oedd y rhain yn dal wrthi i helpu trigolion Bro Morgannwg, ac yr oeddent yn cyd-fynd ag argymhellion y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at CR17 a 18 fel y'u cynhwyswyd yn Atodiad A i'r Adroddiad ynghylch galluedd a bregusrwydd y farchnad oedd yn heriau cydnabyddedig i'r Cyngor, ond yr oedd y risg wedi ei hadnabod ac yn cael ei rheoli.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y ffaith fod y Pwyllgor gwybodus yn asesu'r risgiau hyn yn ystod amseroedd heriol yn tawelu'r meddwl, a diolchodd i'r Pwyllgor am eu syniadau.

Wedi ystyried y cyfeirio,

PENDERFYNWYD - NODI'r cyfeiriad o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 11 Gorffennaf, 2022 a chytunwyd i dynnu ymaith y risg Lles a chynnwys risg Costau Byw ar y Gofrestr am y chwarter nesaf.

Rheswm dros y penderfyniad

Cadw mewn cof gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C61 DYFARNU CONTRACTAU AR GYFER GWASANAETHAU BWS LLEOL Â CHYMORTH GALW I MEWN (CYF)** –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 12 Gorffennaf, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd fod adroddiad y Cabinet wedi trafod sut yr oedd y Cyngor wedi cefnogi rhai gwasanaethau bws ym Mro Morgannwg nad oedd yn economaidd hyfyw ond yn hanfodol er mwyn cefnogi grwpiau bregus neu deithio ar oriau heb fod yn rhai prysur. Cafwyd trafodaeth fanwl yn y Pwyllgor Craffu a nododd cynnwys adroddiad y Cabinet ac y dylid derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 9 Mehefin, 2022. Awgrymwyd ymhellach yr angen am fwy o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau bws lleol sy'n cael eu cefnogi. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn cyhoeddi amserlenni ac yn hyrwyddo gwasanaethau bws lleol trwy sianeli cyfathrebu Bro Morgannwg a'r ffrwd cyfryngau cymdeithasol trafnidiaeth.

Wedi ystyried y cyfeirio,

PENDERFYNWYD – NODI'r cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 12 Gorffennaf, 2022 a bod Cyngor Bro Morgannwg eisoes yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau bws lleol.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Cadw mewn cof gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C62 CABINET PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD –**

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Rhanbarthol Cabinet Dinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2022 fel y'u cynhwyswyd ar yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd, yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai, y bu'n rhaid gwneud newidiadau yn aelodaeth DRC o Gynghorau ar draws de-ddwyrain Cymru yr ymdriniwyd â hwy yn y cyfarfod. Yr oedd yn falch o ddal y Portffolio dros Rannu Ffyniant a Lles yn y Cabinet Rhanbarthol a byddai cofnodion pellach o gyfarfodydd y dyfodol yn dilyn pan fyddant ar gael.

PENDERFYNWYD – NODI cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Cabinet Dinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Nodi'r cofnodion.

**C63 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Yr oedd y Drafft o adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg (Atodiad A) yn tynnu ar amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i gwrdd â'i ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflwyno Blynyddol am 2021/22 fel y'u hasiwyd gydag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol. Byddai'r canfyddiadau yn galluogi'r Cyngor i adnabod sut y wella mwy ar brosesau mewnol

a defnyddio adnoddau i wella a chefnogi cyrraedd ymrwymiadau'r Cynllun Cyflwyno Blynyddol  ac Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Yr oedd yr adroddiad Hunanasesiad Blynyddol yn ofyniad newydd i awdurdodau lleol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sydd yn mynnu bod y Cyngor yn adolygu ei berfformiad yn gyson, yn ymgynghori ac yna'n cyhoeddi adroddiad yn gosod allan gasgliadau ei hunanasesiad unwaith am bob blwyddyn ariannol.

Yn gyffredinol, ar sail adolygiad o berfformiad llynedd, y gred ar y cyfan oedd yr atebwyd ymrwymiadau'r Cynllun Cyflwyno Blynyddol am 2021/22, mewn blwyddyn oedd yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor.  Byddai'r casgliad yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r canfyddiadau o waith ymgynghori gyda dinasyddion, partneriaid, staff y Cyngor ac eraill yr oedd yn rhaid ymgynghori â hwy yn statudol wedi i'r gweithgareddau ymgynghori ddod i ben ddiwedd Medi.

Yr oedd rhaglen o weithgareddau ymwneud yn digwydd ar hyn o bryd yn ystod Awst-Medi 2022, gan dargedu pobl leol a busnesau, staff y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol eraill trwy arolwg ar-lein, gwahanol ddulliau cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â mynychu nifero ddigwyddiadau cyhoeddus ledled Bro Morgannwg.  Byddai'r drafft o'r adroddiad Hunanasesiad hefyd yn cael ei ddosbarthu'n eang gyda chais am sylwadau gan bartneriaid allweddol gan gynnwys Undebau Llafur cydnabyddedig.

Fel rhan o'r gwaith ymwneud, byddid yn ymgynghori ag Aelodau Etholedig trwy Bwyllgorau Craffu ar yr adroddiad drafft gyda'u barn, a fyddai'n sail i adroddiad Hunanasesiad  Blynyddol Bro Morgannwg. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio rôl benodol a osodwyd allan yn  Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o ran cyfrannu at yr adroddiad Hunanasesiad  Blynyddol, a rhaid darparu drafft i'r Pwyllgor i'w adolygu gyda'r Cyngor yn ymateb i unrhyw argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y bwriadant gymryd.

Byddai'r canfyddiadau o'r gwaith ymgynghori yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Hunanasesiad  Blynyddol Bro Morgannwg , a fyddai wedyn yn destun craffu pellach gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'r Cabinet cyn cael ei gyflwyno i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd.

Byddai adroddiad terfynol Hunanasesiad  Blynyddol Bro Morgannwg yn cael ei ddefnyddio fel sail o wybodaeth i Gyngor Cyflawni Blynyddol y Cyngor am 2023/24 a'r Cynlluniau Gwasanaeth cysylltiedig am yr un cyfnod.

Cynigiodd yr Arweinydd ddau fân welliant i'r manylion yn y Crynodeb Gweithredol, sef newid pwynt bwled 1 ar dudalen 2 yr adroddiad, gan newid 'gweithgareddau ymwneud ar ddiwedd Medi' i 'gweithgareddau ymwneud ar ddiwedd Medi / dechrau Hydref a phwynt bwled 2 ar dudalen 2 yr adroddiad, gan newid 'gweithgareddau ymwneud sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ystod Awst-Medi' i 'gweithgareddau ymwneud sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ystod Awst-Hydref', a chytunwyd i hyn.

Tynnodd y Cynghorydd Wilson sylw at faterion yn yr adroddiad ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd a'r gwaith sydd yn mynd ymlaen ar Brosiect Sero, yr argyfwng costau byw a chynnydd mewn chwyddiant, a phwysigrwydd cynnwys cymunedau lleol a darparu help a chefnogaeth lle bo modd.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig cofio llwyddiannau diweddar, gan gynnwys cyflwyno pum ysgol newydd llynedd, gyda thair yn fwy o ysgolion newydd wrthi'n cael eu datblygu ac i fod i'w cwblhau yn 2023. Yr oedd yn bwysig ystyried yr heriau ariannol mawr oedd yn wynebu trigolion Bro Morgannwg a'r Cyngor ei hun, ond y byddai'r Cyngor yn dal i fod yn uchelgeisiol ac ar yr un pryd roi blaenoriaeth i les trigolion Bro Morgannwg.

Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gweithredol oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau oedd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) CADARNHAU y Drafft o adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg Bro Morgannwg 2021/22 (Atodiad A) fel sail i'r ymgynghoriad fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad hwn ac Argymhelliad Dau.

(2) CYFEIRIO y Drafft o adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021/22 at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'r holl Bwyllgorau Craffu i'w ystyried fel rhan o raglen o ymgynghori, gydag unrhyw farn ac argymhellion am newid i'r penderfyniadau neu'r camau arfaethedig (meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol) yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried cyn i adroddiad terfynol Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg f gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'i gyflwyno i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

(3) AWDURDODI y defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) er mwyn caniatáu cyfeirio'r drafft o adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021/22 at gyfarfod y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio a gynhelir ar 13 Medi, 2022 i'w ystyried.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod ymgynghoriad wedi ei gynnal ar ganfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Sicrhau fod pob Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio (yn unol ag adran 114 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cael goruchwylio'r drafft o adroddiad terfynol Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021/22 a bod eu barn yn sail i agwedd y Cyngor at gwrdd â'r gofynion perfformiad newydd.

(3) Er mwyn gallu cyfeirio'r drafft o adroddiad terfynol Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021/22 at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio fel y gallant ei ystyried o fewn yr amserlen ymgynghori.

**C64 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Bwriad yr adroddiad oedd hysbysu'r Cabinet am arfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 23 Mehefin, 2022.
Dywedodd yr Arweinydd na chynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol dros gyfnod y gwyliau ym mis Awst a bod Pwerau Brys wedi eu defnyddio er mwyn parhau a gwaith dros y cyfnod hwnnw, yn bennaf ar faterion oedd naill ai wedi eu hystyried eisoes gan y Cabinet neu i dderbyn arian grant. Cyfeiriodd yn benodol at grantiau teithio llesol a diogelwch y ffyrdd a ddaeth ar gael yn ystod y gwyliau, a bod gwaith wedi gallu dechrau oherwydd y defnyddiwyd Pwerau Brys. Cyfeiriodd ymhellach at y Prosiect Bocs Bwyd Mawr fu'n hynod lwyddiannus, ac Adnewyddu Pier Penarth: materion y cytunwyd arnynt ers yr adroddiad diwethaf.

Nododd y Cynghorydd Birch hefyd y grant am Makerspace yn Llyfrgell y Barri, yn dilyn ymlaen o'r prosiect llwyddiannus yn Llyfrgell Penarth lle cafwyd ymweliad yn ddiweddar gan Rebecca Evans AoS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gweithredol oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau oedd ynddo

PENDERFYNWYD - NODI defnydd y Prif Weithredwr o Bwerau Brys.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

Hysbysu'r Cabinet.

**C65 CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU ST NICHOLAS (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Yr oedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet o ganlyniad yr hysbysiad statudol am y cynnig i ychwanegu darpariaeth feithrin at Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) Sain Nicolas trwy newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) Sain Nicolas o 4 i 3, i gynnwys 24 o lefydd meithrin rhan-amser.

Derbyniodd y Cyngor un gwrthwynebiad erbyn y dyddiad cau o 12 Gorffennaf, 2022. Categoreiddiwyd y gwrthwynebiad dan themâu a'i amlinellu yn yr adroddiad gwrthwynebiad a atodwyd i'r Cabinet ei ystyried fel rhan o'r broses o ddod i benderfyniad. Y mae'r adroddiad i'w weld yn Atodiad A.

Wedi cwblhau'r cyfnod o hysbysiad statudol, yr oedd angen penderfyniad yn awr a ddylid gweithredu'r cynnig i ychwanegu darpariaeth feithrin at Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) fel y'i gosodwyd allan yn y cynnig.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr un gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ymwneud â'r gost, ond ei fod yn derbyn, oherwydd yr amgylchiadau presennol, fod costau llawer o faterion wedi cynyddu ac y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynllunio wrth fynd ymlaen.

Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gweithredol oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau oedd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) NODI canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad am y cynnig.

(2) CYMERADWYO gweithredu'r cynnig i ychwanegu darpariaeth feithrin at Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) trwy newid ystod oedran isaf y disgyblion yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) Sain Nicolas o 4 i 3, i gynnwys 24 o lefydd meithrin rhan-amser.

(3) NODI fod y buddsoddiad mawr tuag at adeilad newydd i'r ysgol a osodwyd allan yn y cynnig yn amodol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cyllid angenrheidiol.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod barn gwrthwynebwyr wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad.

(2) Yn dilyn cwblhau cyfnod o hysbysiad statudol, fod angen penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig i ychwanegu darpariaeth feithrin at Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (EyngNg) Sain Nicolas.

(3) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol fod y buddsoddiad llawn yn adeilad yr ysgol a ddisgrifiwyd yn nogfennaeth yr ymgynghoriad yn ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**C66 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022-2032 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Y mae Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi pwyslais arbennig ar gynyddu nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

I gyd-fynd â hyn, y mae gofyn i'r Cyngor baratoi, ymgynghori a chyflwyno Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSAG). Rhaid oedd i'r cynllun ymestyn dros gyfnod o ddeng mlynedd o 2022-2032 a rhaid i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ddim hwyrach na 31 Ionawr, 2022.

Cynhyrchodd y Cyngor ddrafft o weledigaeth a strategaeth CSAG a fu'n destun ymgynghori o ddydd Gwener 15 Hydref, 2021 tan ddydd Gwener 10 Rhagfyr, 2021 a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 15 Mawrth, 2022.

Ymrwymiad allweddol yn y cynllun oedd y cynnig drafft i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 oedd yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031-32. Y mae hyn yn cyfateb i ryw 390 o lefydd Blwyddyn 1 i fod ar gael erbyn 2031-32 ar sail y rhagfynegiadau poblogaeth cyfredol. Yr oedd y targed drafft yn heriol ac ar ganol yr ystod targed a osodwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru yn ceisio esboniad am rai pwyntiau, gwnaed nifer o welliannau er mwyn cryfhau'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 24 Mehefin er mwyn cwrdd â'r terfynau amser statudol. Cyflwynwyd y cynllun diwygiedig (a welir yn Atodiad A i'r adroddiad) i'w gymeradwyo neu dderbyn gwelliannau gan y Cabinet. Cafwyd cadarnhad gan Jeremy Miles, y Gweinidog dros Addysg a'r Iaith Gymraeg, ar 20 Gorffennaf, 2022 fod y gwelliannau wedi eu cymeradwyo.

Yr oedd y targedau a osodwyd yn y CSAG drafft yn heriol, ac yn galw am gryn fuddsoddiad dros einioes y cynllun. Byddai strategaeth CSAG y Cyngor yn elfen allweddol mewn datblygu cynlluniau i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a elwid gynt yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif).

Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gweithredol oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau oedd ynddo

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO y Cynllun 10-mlynedd diwygiedig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 24 Mehefin, 2022.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

I gwrdd â gofyniad Llywodraeth Cymru am Gynllun Strategol Addysg Gymraeg a gyflwynwyd erbyn 24 Mehefin, 2022 i'w gymeradwyo gan y Cabinet yn ôl-weithredol.

**C67 ADNEWYDDU CWRT TENNIS (HCL) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Y mae'r cyrtiau tenis yn Millwood (Y Barri), Gwenfo a Chae Athletau Penarth (2 gwrt) fel y dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad, er eu bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, mewn cyflwr gwael.

Yr oedd Tenis Cymry, corff llywodraethol tenis yng Nghymru, wedi cynnig oddeutu £120,000 i'r Cyngor i uwchraddio'r arwynebeddau yn y safleoedd hynny a chyflwyno clwydi talu i fonitro defnydd ac ail-fuddsoddi'r incwm mewn tenis ym Mro Morgannwg.

Pan fyddai'r gwaith wedi ei gwblhau, byddai'r safleoedd yn Millwood (y Barri) a Gwenfo yn cael eu rheoli a'u cynnal gan Tenis Cymru trwy brydles 7-mlynedd fel y cytunwyd ac y cyflawnwyd yn ddiweddar yng nghyrtiau tenis Parc Romilly yn y Barri. Byddai'r cyrtiau yng Nghae Athletau Penarth yn dal i gael eu rhedeg gan y Cyngor hyd nes y ceid cytundeb am drosglwyddo cyfrifoldebau i Glwb Athletau Penarth.

Dylai'r cyfleusterau gwell annog mwy o ddefnydd a rhoi cyfleoedd i ddatblygu chwaraeon, yn ogystal â gwella iechyd a lles y sawl sy'n chwarae.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gyfle gwych i'r Cyngor hwn gael pedwar cwrt tenis wedi eu gwella i safon cystal â'r rhai ym Mharc Romilly.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod gwelliannau i gyrtiau bwrdeistrefol yn ffordd o annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac o bosib ystyried ymuno â chlwb.

Dywedodd y Cynghorydd Birch ei bod yn dda gweld y cyfleusterau hyn yn cael eu hadfer i ddefnydd i gynifer o bobl ag sydd modd trwy gynnig arian grantiau.

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch personol i Tenis Cymru. Dywedodd mai gwych o beth oedd gweld 300 o blant ar ddiwrnod agoriadol y cyrtiau ym Mharc Romilly yn ddiweddar, gydag un o hyfforddwyr y Gymdeithas Tenis Lawnt yn bresennol, a oedd hefyd yn ymweld ag ysgolion a rhai clybiau tenis i annog chwarae tenis y tu hwnt i bythefnos Wimbledon. Byddai darparu cyfleusterau da yn annog hynny at y dyfodol ym Mro Morgannwg.

Dywedodd yr Arweinydd y dylid annog mwy o gyfleoedd am ymarfer corff i bobl ym Mro Morgannwg.

Mater i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gweithredol oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau oedd ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) AWDURDODI'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai, trwy ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/ Swyddog 151, i dderbyn grant gan Tenis Cymru i adnewyddu'r cyrtiau tenis ym Millwood (y Barri), Gwenfo a Chae Athletau Penarth ( dau gwrt) yn amodol ar Benderfyniad 3 isod.

(2) AWDURDODI'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, trwy ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, a'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles, yn amodol ar gwblhau'r gwaith uwchraddio yn foddhaol ac ar yr amod na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau parthed Penderfyniad 3 isod, i gytuno ar delerau a gweithredu prydles 7 (saith) mlynedd i Tenis Cymru i reoli a chynnal y cyrtiau tenis ym Millwood (y Barri) a Gwenfo.

(3) DIRPRWYO awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i hysbysebu am waredu tir y cyrtiau tenis trwy brydles

yn unol ag a123 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gydag unrhyw sylwadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

(4) CYNYDDU Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o swm y grant o £120 000 pan dderbynnir y llythyr dyfarnu gan Tenis Cymru.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I ganiatáu adnewyddu'r cyrtiau tenis gan warchod eu defnydd i genedlaethau'r dyfodol.

(2) I ddarparu partneriaeth fusnes gynaliadwy i reoli'r cyfleusterau a adnewyddwyd.

(3) I gydymffurfio â dyletswydd statudol y Cyngor o ran gwaredu man agored cyhoeddus.

(4) I gydymffurfio â rheoliadau ariannol y Cyngor.